

HER YR HINSAWDD (7–11)

Trosolwg ar gyfer yr Athro

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau *Her yr Hinsawdd*
- Strwythur yr adnoddau
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Amseriadau
- Nodiadau addysgu pwysig
- Gwefannau ac adnoddau defnyddiol
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Diolchiadau
- Telerau defnyddio

Cyflwyniad

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad byd-eang sydd eisoes yn cael effaith ar filiynau o bobl ar draws y byd. Mae'r adnoddau hyn yn canolbwyntio ar effaith ddynol y newid yn yr hinsawdd: sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymunedau o amgylch y byd, sut y mae pobl yn ymateb yn addasu i'r heriau hyn.

Ar raddfa fyd-eang, mae llawer o ffermwyr yn sylwi ar newidiadau graddol, ond arwyddocaol, mewn patrymau tymheredd a glawiad sy'n ei gwneud yn anos gwybod pryd orau i hau, trin a chynaeafu cnydau. Mae prisiau bwyd yn codi ac mae ansawdd bwyd yn gostwng. Mae mwy o bobl yn mynd yn llwglyd. Er enghraifft, yn Affrica Is-Sahara, rhagwelir y bydd 27% yn fwy o bobl mewn perygl o wynebu newyn erbyn 2050 yn sgil y newid yn yr hinsawdd¹.

O amgylch y byd, mae trychinebau fel llifogydd a sychder yn cynyddu o ran amllder a dwyster. Mae nifer y trychinebau eithafol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, stormydd, sychder a thymheredd eithafol, wedi dyblu'n fras yn ystod y 25 mlynedd diwethaf². Yn y DU, amharwyd ar filoedd o fywydau gan lifogydd difrifol yn ne Lloegr yn ystod gaeaf 2013-14, gaeaf gwlypaf y wlad am 250 o flynyddoedd. Mae'r Swyddfa Dywydd wedi dweud bod y glawiad uchaf erioed fel hyn saith gwaith yn fwy tebygol erbyn hyn o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd a ysgogir gan bobl³.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb. Ac eto, y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn y byd – y rhai sy'n dibynnu ar law i dyfu cnydau, y rhai sy'n byw mewn strwythurau sydd wedi'u hadeiladu'n wael yn yr ardaloedd mwyaf agored (ymylol), ac sy'n wynebu diffyg cynilion neu yswiriant – sy'n cael eu taro galetaf, er iddynt gyfrannu leiaf at y broblem. Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn gorfodi pobl i adael eu tir a'u

¹ International Food Policy Research Institute (2019). 2019 Global Food Policy Report. Washington, DC: International Food Policy Research Institute. doi.org/10.2499/9780896293502

² www.fao.org/state-of-food-security-nutrition/en/

³ www.metoffice.gov.uk/research/climate/understanding-climate/uk-extreme-events-heavy-rainfall-and-floods
Hawffraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

cartrefi - mae pobl mewn gwledydd tlotach bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu gorfodi i symud yn sgil trychinebau tywydd 'sydyn ac annisgwyl' na phobl mewn gwledydd cyfoethocach⁴.

Er y gall y newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol effeithio'n ddifrifol ar bob person tlawd, yn aml menywod yw'r rhai mwyaf agored i niwed oherwydd bod ganddynt faich cyfrifoldebau ehangach yn aml ac maent yn fwy dibynnol ar adnoddau naturiol i gyflawni eu tasgau. Mae'r cyfrifoldebau hyn fel arfer yn cynnwys gofal plant a chyflawni tasgau sy'n aml yn dibynnu ar argaeledd dŵr glân. Er enghraifft, yn Uganda mae menywod eisoes yn cerdded 6 awr y dydd i nôl dŵr - wrth i dymhorau sych fynd yn hwy, bydd menywod yn cael eu gorfodi i gerdded hyd yn oed yn bellach ar gyfer dŵr a choed tân⁵. Yn aml, mae dynion mewn sefyllfa gryfach i ymdopi (mewn geiriau eraill, maent yn llai agored i niwed) oherwydd eu mynediad i'r economi arian parod ac oherwydd bod ganddynt fwy o bŵer i wneud penderfyniadau. Ar lefel fyd eang mae menywod 14 gwaith yn fwy tebygol na dynion o farw yn ystod trychineb⁶.

Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan hanfodol o waith Oxfam, yn enwedig gan ei fod yn bygwth gwrthdroi llawer o'r datblygiadau a wnaed o ran mynd i'r afael â thlodi dros ddegawdau blaenorol. Rydym yn gweithio ar draws y byd i helpu cymunedau i ddeall ac addasu i'r newidiadau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal â dod yn fwy gwydn i bob ergyd yn yr hinsawdd. Mae Oxfam yn ymgyrchu er mwyn ceisio darbwyllo llywodraethau, yn enwedig gwledydd cyfoethog sy'n allyrru'n sylweddol, i leihau allyriadau i sero ar frys ac i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran cyllid hinsawdd i gefnogi gwledydd a chymunedau sy'n agored i niwed i ymdopi ag effeithiau argyfwng hinsawdd nad ydynt yn gyfrifol amdano.

Drwy gydol *Her yr Hinsawdd* bydd cyfleoedd i ddysgwyr rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu a chodi ymwybyddiaeth o effaith ddynol y newid yn yr hinsawdd. Fe'u hanogir i ddefnyddio ystod eang o gyfryngau, megis taflenni, posteri, areithiau, erthyglau ar gyfer papurau newydd lleol neu newyddion ar gyfer radio neu deledu; bydd hyn yn cefnogi eu datblygiad fel dinasyddion byd-eang gweithgar.

Nodau *Her yr Hinsawdd*

- Cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o beth yw'r newid yn yr hinsawdd a sut mae gweithgareddau dynol yn cyfrannu at hyn.
- Datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o bobl a chymunedau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt ac empathi â nhw.
- Datblygu dealltwriaeth dysgwyr o beth yw addasu i'r newid yn yr hinsawdd a sut mae rhai cymunedau'n addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Ystyried camau gweithredu gwahanol y gall unigolion, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu cymryd i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

Strwythur yr adnoddau

- Cynlluniau ar gyfer chwe sesiwn
- Dwy sioe sleidiau

⁴ <http://oxfamapps.org/media/kqalq>

⁵ <https://www.irinnews.org/opinion/2018/12/18/what-do-about-climate-change-ask-women-they-have-most-lose>

⁶ www.unwomen.org/en/what-we-do/economic-empowerment/facts-and-figures

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddiobenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Yn ddelfrydol, bydd dysgwyr yn cwblhau pob un o'r chwe sesiwn. Fodd bynnag, mae'r adnoddau rhai hyblyg ac wedi'u strwythuro i alluogi athrawon i greu teithiau dysgu personol i'w dysgwyr. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai sesiynau a/neu weithgareddau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion dysgu presennol eu dysgwyr. Gall hefyd fod yn briodol rhannu'r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg ac yn cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau cwricwlaidd. Darperir gweithgareddau a awgrymir ynghyd ag amseroedd bras. Ni chaiff unrhyw weithgareddau cychwynnol na gweithgareddau llawn eu cynnwys gan y tybir y bydd athrawon am gynllunio'r rhain yn unigol. Fodd bynnag, gellir addasu llawer o'r gweithgareddau at y diben hwn. Mae unrhyw daflenni adnoddau a gweithgareddau wedi'u cynnwys yng nghynllun y sesiwn.

- **Sesiwn 1: Beth yw'r newid yn yr hinsawdd?**

Bydd dysgwyr yn archwilio eu syniadau presennol am y newid yn yr hinsawdd yn gyntaf. Byddant wedyn yn cyflawni gweithgaredd ymarferol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o beth yw'r effaith tŷ gwydr. Yn olaf, bydd dysgwyr yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth eilaidd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y newid yn yr hinsawdd.

- **Sesiwn 2: Pwy sy'n gyfrifol?**

Bydd dysgwyr yn rhestru rhai achosion dynol y newid yn yr hinsawdd. Byddant yn nodi pwy sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd ar hyd cadwyn gyflenwi, o gae i archfarchnad. Yn olaf, bydd dysgwyr yn ymchwilio i olion traed carbon pobl sy'n byw mewn gwahanol wledydd ar draws y byd.

- **Sesiwn 3: Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r hyn y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arno. Yna byddant yn defnyddio 'olwyn ganlyniadau' i feddwl yn feirniadol am rai o effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar bobl a'n planed.

- **Sesiwn 4: Straeon newid hinsawdd**

Bydd dysgwyr yn dysgu bod y newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ar bobl ar draws y byd. Byddant yn cydnabod y bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo'n fwy gan y rhai tlotaf ac yn eironig y lleiaf cyfrifol. Bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos i ymchwilio i sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar rai cymunedau o amgylch y byd. Byddant yn defnyddio chwarae rôl i amlygu empathi â rhai pobl y mae eu bywoliaeth yn cael ei bygwth gan yr argyfwng hinsawdd.

- **Sesiwn 5: Addasu i'r newid yn yr hinsawdd**

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i sut mae rhai cymunedau ar draws y byd yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Byddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp i ystyried ffyrdd posibl y gallai cymuned yn Bangladesh addasu i lifogydd. Yna bydd dysgwyr yn defnyddio astudiaeth achos i archwilio'n fanylach sut mae un gymuned yn Bangladesh yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

- **Sesiwn 6: Cymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd**

Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn trafod gwahanol gamau y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Yna bydd dysgwyr yn nodi camau posibl y gallent eu cymryd fel ysgol ac yn eu rhoi mewn trefn yn ôl eu rhwyddineb a'u heffaith gymharol. Yn olaf, bydd dysgwyr yn gweithio mewn grŵp i gynllunio eu camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Gwahaniaethu

Lle bo hynny'n bosibl, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gallai hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn. Mae llawer o'r sesiynau hefyd yn addas ar gyfer gwahaniaethu yn ôl

canlyniad. Gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir yn y *syniadau pellach* hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymestyn dysgwyr mwy abl.

Grŵp oedran

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr rhwng 7 ac 11 oed. Fodd bynnag, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau i'w defnyddio hefyd gyda dysgwyr iau neu hŷn.

Nodiadau addysgu pwysig

- Bwriad y gweithgareddau a'r adnoddau hyn yw cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain. Gall fod angen addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.
- Darperir amseroedd awgrymedig ar gyfer pob gweithgaredd. Sylwer mai brasamcan yn unig yw'r amseroedd hyn.
- Mae rhywfaint o'r data yn yr adnodd hwn, megis y data gan Fanc y Byd a'r Atlas Carbon Byd-eang, yn agored i newid. Felly, efallai y gwelwch, os yw eich dysgwyr yn dod o hyd i ddata o'r rhyngrwyd eu hunain, fod eu ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn yr adnodd hwn, a oedd yn gywir adeg eu cyhoeddi.

Roedd yr holl ddolenni gwe a ddarparwyd yn gywir adeg eu cyhoeddi.

Gwefannau ac Adnoddau defnyddiol eraill

- Gwybodaeth bellach am waith Oxfam ar y newid yn yr hinsawdd:
www.oxfam.org.uk/what-we-do/issues-we-work-on/climate-change
- Canllaw Hinsawdd y Swyddfa Dywydd - Dysgu am yr hinsawdd, y newid yn yr hinsawdd a gwyddoniaeth yr hinsawdd:
www.metoffice.gov.uk/climate-guide
- Y Panel, Rhynglywodraethol ar y newid yn yr hinsawdd (IPCC) – adroddiad diweddaraf yr IPCC yw'r ffynhonnell fyd-eang orau ar gyfer yr ymchwil ddiweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd:
www.ipcc.ch/report
- Atlas Carbon Byd-eang – Archwilio, delweddu a dehongli data am allyriadau carbon:
www.globalcarbonatlas.org
- Profwch wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr ynghylch y newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau:
www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-change-quiz
- *Climate Kids: NASA's Eyes on the Earth* – Gwybodaeth, gemau a gweithgareddau:
climatekids.nasa.gov

- Gwefan Global Dimension – Archwiliwch adnoddau addysg ar y newid yn yr hinsawdd gan sefydliadau amrywiol:

globaldimension.org.uk

- Adnoddau a awgrymir gan y Gymdeithas Ddaeryddol ar gyfer ymchwilio i'r newid yn yr hinsawdd: www.geography.org.uk/teaching-resources/weather-climate-change/investigating-climate-change
- Mynnwch wybod rhagor am gamau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig i ymgyrchu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, a sut y gall unigolion a chymunedau gymryd rhan:
 - Clymbaid yr Hinsawdd: www.theclimatecoalition.org
 - Atal Anhrefn Hinsawdd yr Alban: www.stopclimatechaos.scot
 - Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru: <http://stopclimatechaos.cymru/>

Amlinelliad manwl o'r adnoddau

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
<p>Sesiwn 1: <i>Beth yw'r newid yn yr hinsawdd?</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Bod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng yr hinsawdd a'r tywydd. Cydnabod bod hinsawdd y Ddaear yn newid a bod gweithgareddau dynol yn cyfrannu at y newid hwn. Deall sut mae'r effaith tŷ gwydr yn gweithio a rôl carbon deuocsid fel nwy tŷ gwydr. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd Bydd dysgwyr yn cynnal arbrawf ac yn defnyddio'r canlyniadau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r effaith tŷ gwydr. Bydd dysgwyr yn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y newid yn yr hinsawdd gydag eraill. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth ydw i'n ei wybod am y newid yn yr hinsawdd? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd? Beth yw'r effaith tŷ gwydr? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 1.1: <i>Ras fwrdd am y newid yn yr hinsawdd</i> Gweithgaredd 1.2: <i>Yr effaith tŷ gwydr mewn jar</i> Gweithgaredd 1.3: <i>Beth ydych chi'n ei ddeall am y newid yn yr hinsawdd?</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe sleidiau A Her yr hinsawdd: Sleidiau 2-7</i> Taflen gweithgaredd 1: <i>Yr effaith tŷ gwydr mewn jar</i>
<p>Sesiwn 2: <i>Pwy sy'n gyfrifol?</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Nodi rhai gweithgareddau dynol sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Deall beth yw ôl troed carbon. Cydnabod bod gan bawb yn y byd ôl troed carbon ond mae rhai pobl yn gyfrifol am fwy o allyriadau CO₂ nag eraill. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai gweithgareddau dynol sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn nodi ac yn didoli rhai o'r prosesau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu torth o fara a'i gael i gartref rhywun, ac ystyried pa rai o'r prosesau hyn sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i allyriadau CO₂ y pen mewn gwahanol wledydd ledled y byd. 	<ul style="list-style-type: none"> Pa weithgareddau dynol sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd? Pa brosesau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu torth o fara? Beth yw ôl troed carbon? Pwy sy'n gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd? Pwy yw'r cyfranwyr mwyaf? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 2.1: Beth sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd? Gweithgaredd 2.2: Bwyd, diod a'r newid yn yr hinsawdd Gweithgaredd 2.3: Pwy sy'n gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd? Gweithgaredd 2.4: Ymchwilio i Atlas Carbon Byd-eang 	<ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau A Her yr hinsawdd: Sleidiau 8-14 Taflen adnoddau 1: <i>Hanes bywyd can alwminiwm</i> Taflenni gweithgareddau: <ol style="list-style-type: none"> <i>Taith torth o fara</i> <i>Pwy sy'n gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd?</i>

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
<p>Sesiwn 3:</p> <p><i>Ar bwy y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio?</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Nodi rhai o effeithiau presennol a phosibl y newid yn yr hinsawdd ar bobl a'n planed. Meddwl yn feirniadol am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn disgrifio ac yn trafod rhai effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Bydd dysgwyr yn defnyddio olwyn ganlyniadau i ystyried rhai o ganlyniadau posibl y newid yn yr hinsawdd. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yw'r newid yn yr hinsawdd a beth y gallai effeithio arno? Sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar hyn? Ar bwy y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio a phwy y gallai effeithio arno? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 3.1: <i>Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd</i> Gweithgaredd 3.2: <i>Canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe sleidiau A Her yr hinsawdd</i>: Sleidiau 15-24 Taflen adnoddau 1: <i>Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd</i> Taflen gweithgaredd 1: <i>Canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd</i>
<p>Sesiwn 4:</p> <p><i>Straeon am y newid yn yr hinsawdd</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Cydnabod bod y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb ond pobl sy'n byw mewn tloedi yw'r rhai mwyaf agored i niwed. Disgrifio rhai ffyrdd y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymunedau ledled y byd. Uniaethu â rhai o'r bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu peryglon yn sgil y newid yn yr hinsawdd. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn defnyddio llinell gytundeb i ystyried a mynegi eu barn am y newid yn yr hinsawdd. Bydd dysgwyr yn egluro'n fanwl y modd y mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael effaith negyddol ar gymuned neu unigolyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl a chymunedau? Sut yr ydw i'n meddwl bod hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 4.1: <i>Ble yr ydych chi'n sefyll?</i> Gweithgaredd 4.2: <i>Straeon am y newid yn yr hinsawdd</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe sleidiau B Her yr hinsawdd</i>: sleidiau 2-8 Tafleni adnoddau 1-4: <i>Straeon am y newid yn yr hinsawdd</i>

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
<p>Sesiwn 5: Addasu i'r newid yn yr hinsawdd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Deall beth mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ei olygu. Disgrifio rhai ffyrdd y mae cymunedau ar draws y byd yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn gweithio gydag eraill i ystyried ffyrdd posibl y gallai cymuned yn Bangladesh addasu i effeithiau llifogydd. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i rai dulliau y mae unigolion a chymunedau yn eu defnyddio i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yw'r newid yn yr hinsawdd? Sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl a chymunedau? Beth y byddech yn ei wneud? Sut y mae pobl a chymunedau yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd? Sut y mae Oxfam yn helpu cymunedau i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 5.1: <i>Beth y byddech yn ei wneud?</i> Gweithgaredd 5.2: <i>Stori Sahena</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe sleidiau B Her yr hinsawdd</i>: sleidiau 9-25 Taflenni adnoddau <ol style="list-style-type: none"> <i>Llifogydd yn Bangladesh</i> <i>Stori Sahena – Astudiaeth achos</i> Taflenni gweithgaredd: <ol style="list-style-type: none"> <i>Stori Sahena – cardiau annog</i> <i>Stori Sahena – Penawdau</i>
<p>Sesiwn 6: Cymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nodi ystod o gamau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Deall y bydd camau gweithredu yn amrywio yn ôl pa mor hawdd y gellir eu cyflawni a'r effaith y byddant yn ei chael. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn rhestru rhai camau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Bydd dysgwyr yn ystyried ac yn rhoi gwahanol gamau gweithredu y neu trefn yn ôl eu rhwyddineb a'u heffaith gymharol. 	<ul style="list-style-type: none"> Pa gamau y gellir eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd? Pa gamau y gallwn eu cymryd? Pa mor hawdd fydd y camau hyn i'w gwneud? Pa effaith a gaiff y cam gweithredu hwn? 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgaredd 6.1: <i>Beth mae cymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd yn ei olygu?</i> Gweithgaredd 6.2: <i>Trefnu camau gweithredu o ran y newid yn yr hinsawdd</i> Gweithgaredd 6.3: <i>Dewis gweithred yn erbyn y newid yn yr hinsawdd</i> Gweithgaredd 6.4: <i>Camau cynllunio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe sleidiau B Her yr hinsawdd</i>: sleidiau 26-31 Taflenni gweithgareddau: <ol style="list-style-type: none"> <i>Trefnu camau gweithredu</i> <i>Rancio camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd</i> <i>Matrics effaith</i> <i>Grid cynllunio camau gweithredu</i>

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd ar gyfer athrawon disgyblion rhwng 7 ac 11 oed ynghylch Dinasyddiaeth Fyd-eang yw *Her yr Hinsawdd*. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu – meddwl – gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddiulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler:

www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
<ul style="list-style-type: none"> Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch Hunaniaeth ac amrywiaeth Globaleiddio a cyd-ddibyniaeth Datblygu cynaliadwy Heddwch a gwrthdaro Hawliau dynol Pŵer a llywodraethu 	<ul style="list-style-type: none"> Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol Empathi Hunanyrwyddiaeth a myfyrdod Cyfathrebu Cydweithredu a datrys gwrthdaro Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd Camau gweithredu gwybodus a myfyriol 	<ul style="list-style-type: none"> Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch Parch at bobl a hawliau dynol Rhoi gwerth ar amrywiaeth Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant Y gred y gall pobl sicrhau newid

Diolchiadau

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

Mae'r deunyddiau hyn yn defnyddio syniadau, cynnwys a gweithgareddau o adnoddau addysg blaenorol Oxfam ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r deunyddiau blaenorol bellach wedi'u harchifo a'u tynnu oddi ar wefan addysg Oxfam.

Cysylltwch â ni os ydych yn chwilio am adnodd penodol gan Oxfam ac nad ydych bellach yn gallu dod o hyd iddo: education@oxfam.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.